

5 Atodiadau

a. Amcangyfrif o gostau gweithredu'r argymhellion

Ni fydd llawer o'r argymhellion a gyflwynwyd angen cyllid ychwanegol i'w darparu gan eu bod yn awgrymu gwahanol ddull neu ffordd newydd o wneud pethau. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd hyn yn gofyn am gapasiti swyddogion a chymorth i'w weithredu. Pan fo'n briodol, amlinellwyd awgrym o'r costau tebygol ar gyfer darparu'r argymhellion hynny a fydd angen buddsoddiad ariannol isod. Yng nghyswllt llawer o'r argymhellion, bydd y costau gweithredu manwl yn anhysbys tan i'r argymhelliad gael ei ddatblygu ymhellach. Yn yr achosion hynny, rydym yn gofyn bod cefnogaeth mewn egwyddor yn cael ei rhoi ar yr adeg hon a bydd angen paratoi achos busnes manwl a'i ailgyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ei ystyried yn ddiweddarach.

Argymhellion	Cost a Amcangyfrifir
<p>1 Bod y Cyngor yn gweithio gyda'r cymunedau a'r rhanddeiliaid lleol yn neg o'i drefi gwledig (a'u cymunedau cyfagos) i ddatblygu cynlluniau unigol a fydd â'r nod o ddarparu gweledigaeth strategol hirdymor i sicrhau cynaliadwyedd economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer y trefi hynny. Dyma'r ddeg tref arfaethedig:</p> <ul style="list-style-type: none">i. Llanymddyfriii. Sanclêriii. Hendy-gwyn ar Dafiv. Castellnewydd Emlynv. Talacharnvi. Cwmaman (Dyffryn Aman)vii. Llanybydderviii. Cydweli (Gwendraeth)	<p>Nodwyd cyllid grant o £170,000 i baratoi cynlluniau twf ar gyfer wyth o'r deg tref.</p> <p>Mae angen £50,000 ychwanegol i gwblhau'r cam cyntaf.</p>

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
	ix. Llandeilo x. Cross Hands	
2	Bod y Cyngor yn parhau i weithredu cyfleoedd ariannu presennol ar gyfer datblygu gwledig a nodi cyfleoedd ariannu sectorau cyhoeddus a phreifat allanol i gynorthwyo â dyheadau twf economaidd y deg dref wledig a busnesau gwledig y sir.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
3	Bod y Cyngor yn sicrhau pwyslais ar ddatblygiad pellach sector yr economi sylfaenol yn Sir Gaerfyrddin, gan gefnogi egwyddorion yr economi gylchol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
4	Bod y Cyngor yn gweithio i alluogi'r ailddefnydd o adeiladau gwag neu segur ar dir amaethyddol ac mewn trefi a phentrefi gwledig, i ddatblygu deorydd busnes neu lety masnachol mewn ardaloedd gwledig.	Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi a chynlluniau gael eu datblygu.
5	Bod y Cyngor yn cynnal ei ystad wledig ond yn adolygu ei ddefnydd a'i bolisi yn y dyfodol, gan weithio hefyd gyda phartneriaid sector cyhoeddus eraill i nodi cyfleoedd datblygu trwy eu hystad wledig.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
6	Bod y Cyngor yn parhau i wneud cyllid grant ar gael i gefnogi dyheadau twf entrepreneuriaid a busnesau gwledig y sir, gan archwilio ymarferoldeb sefydlu cronfa fenthyciadau leol i'r sector preifat.	Cyllid grant ar gael trwy raglenni presennol. Capasiti swyddogion i'w ddarparu.
7	Bod y Cyngor yn gweithio gydag asiantaethau a gwasanaethau cymorth busnes eraill (e.e. Busnes Cymru, Busnes mewn Ffocws, Cyswllt Ffermio ac ati) i ganiatáu mwy o glystyru cymorth a chyfeirio i fusnesau lleol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.

Argymhellion	Cost a Amcangyfrifir
<p>8 I lobïo Llywodraeth Cymru i ddiwygio polisi cynllunio cenedlaethol, ac yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. TAN 6 i alluogi dull mwy hyblyg o ddatblygu mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig mewn ardaloedd y tu allan i aneddiadau a nodwyd, a b. TAN 20 o ran sicrhau bod effaith unrhyw ddatblygiad ar y Gymraeg yn ofynnol fel ystyriaeth berthnasol, fel y nodir yn Neddf Cynllunio 2015, a bod ei statws mewn deddfwriaeth yn cael ei adlewyrchu yn y TAN. 	<p>Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.</p>
<p>9 I lobïo Llywodraeth Cymru i ddiwygio polisi cynllunio (yn rhan o TAN 6) o ran adeiladu ail annedd ar ffermydd sefydledig gan nad yw'r gofynion cyfredol yn ymwneud â dangos incwm o'r fferm i ganiatáu datblygiad yn ddilys mwyach. O gofio natur newidiol amaethyddiaeth yn y presennol a'r dyfodol a goblygiadau posibl Brexit, bydd yn rhaid i incwm o'r fferm gael ei ategu gan incwm o ffynonellau eraill, h.y. aelodau teulu estynedig yn cymryd cyflogaeth y tu allan i leoliad y fferm. Felly, mae angen ystyried cyfanswm incwm yr aelwyd, fel uned deuluol, yn hytrach nag incwm y fferm yn unig.</p>	<p>Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.</p>
<p>10 Bod y Cyngor yn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. caniatáu datblygiad preswyl a busnes o faint priodol mewn ardaloedd cymunedau llai yn ôl yr angen b. caniatáu cymysgedd priodol o ddeiliadaethau mewn datblygiadau preswyl, yn seiliedig ar angen tai lleol c. caniatáu'r dyraniad priodol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig d. caniatáu datblygiad twristiaeth a busnes mewn ardaloedd gwledig i gynorthwyo cefnogi datblygiad ac arallgyfeirio yn y dyfodol 	<p>Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.</p>
<p>11 Bod y Cyngor yn diwygio ei bolisi cynllunio i ganiatáu cyfeiriad at ffermdy newydd / wedi ei ailddatblygu neu annedd sy'n gysylltiedig ag eiddo amaethyddol fel y gellir ei leoli ar bellter rhesymol y tu allan i'r buarth gweithredol er mwyn sicrhau y gellir rhoi sylw dyledus i:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Ystyriaethau iechyd a diogelwch; b. Bioddiogelwch; a 	<p>Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.</p>

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
	c. Lleihau'r perygl o filheintiau (clefydau y gellir eu trosglwyddo rhwng pobl ac anifeiliaid, e.e. TB).	
12	Bod y Cyngor yn ymchwilio i ymarferoldeb caniatáu sefydlu/creu tyddynnau newydd mewn ardaloedd gwledig, y tu allan i aneddiadau a nodwyd, yn seiliedig ar angen lleol a'r cyfraniad cadarnhaol posibl at gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y gymuned leol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
13	Bod y Cyngor yn parhau i gefnogi a datblygu ymhellach ei gynllun uchelgeisiol, sef Cynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy Sir Gaerfyrddin, ar ôl 2020 i sicrhau parhad argaeledd cynyddol tai fforddiadwy yn y sir ac i sicrhau bod y cynigion ar gyfer adeiladu tai cyngor newydd yn adlewyrchu anghenion tai lleol mewn ardaloedd gwledig.	Costau i gael eu pennu ar ôl i gynlluniau gael eu datblygu.
14	Bod y Cyngor yn ystyried argymhellion 'Adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae' Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Gwasanaethau Plant, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2019 ac sy'n cynnwys argymhellion yn canolbwyntio ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. Y gofal plant sydd ar gael ac yn cael ei ddarparu ar draws y sir ond yn yr ardaloedd gwledig yn arbennig b. Cynorthwyo'r sector gofal plant i gynyddu'r gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac sy'n cael ei ddarparu ar draws y sir c. Y ddarpariaeth clybiau ar ôl yr ysgol a gofal cofleidiol sydd ar gael drwy ysgolion d. Adolygu polisi derbyniadau'r Cyngor ar gyfer addysg amser llawn i blant pedair mlwydd oed e. Sicrhau bod yr holl rieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth am fudd addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd f. Cynorthwyo ysgolion a phartneriaid lleol i ddatblygu model a fyddai'n galluogi defnydd cymunedol o gyfleusterau chwarae ysgolion y tu allan i oriau ysgol 	I'w pennu yn rhan o'r Adolygiad Gorchwyl a Gorffen.

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
	Byddai'r argymhellion yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth a mynediad at ofal plant a chyfleoedd chwarae mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â chefnogi'r egwyddor o adeiladu cydnerthedd a chynaliadwyedd ysgolion gwledig yn y dyfodol.	
15	Bod y Cyngor yn parhau i fod yn gwbl gefnogol i wneud popeth yn ei allu i adeiladu cydnerthedd a chynaliadwyedd ei ysgolion gwledig yn y dyfodol, ac yn gweithio yn unol â chyfres Llywodraeth Cymru o weithdrefnau a gofynion yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n gweithio ar sail tybiaeth yn erbyn cau.	Costau i gael eu pennu ar sail achosion unigol.
16	Bod y Cyngor yn parhau â'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran symud pob ysgol gynradd ac uwchradd ar hyd y continwwm o ran cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
17	Bod y Cyngor, trwy Brosiect Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, yn ceisio cynyddu mewnbyn gyrfaoedd ar oedran iau mewn ysgolion i ysbrydoli a chodi dyheadau o ran cyfleoedd cyflogaeth ac entrepreneuriaeth lleol.	Dim costau uniongyrchol. Prosiect yn cael ei weithredu drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.
18	Bod y Cyngor yn gweithio gyda Choleg Sir Gâr i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu model canolfan arloesedd, technoleg a sgiliau gwledig ar draws y sir a fyddai'n gweithio i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau mewn sectorau penodol, gan ganolbwyntio ar sgiliau seiliedig ar waith / galwedigaethol.	Costau i gael eu pennu ar ôl nodi'r opsiynau.
19	Bod y Cyngor yn datblygu cyfres o gyfleoedd lleoliadau / profiad gwaith gyda busnesau lleol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth leol o opsiynau gyrfaoedd.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
20	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu system olrhain ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyfleoedd addysg a chyflogaeth gyda'r nod o'u cyfeirio at gyfleoedd cyflogaeth i'w caniatáu i ddychwelyd i Sir Gaerfyrddin.	Costau i gael eu pennu ar ôl nodi'r opsiynau. Prosiect yn cael ei ystyried gan y

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
		Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.
21	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i wneud gwaith mapio pellach ar oblygiadau posibl Brexit i sectorau gweithlu penodol ar draws y sir.	Dim costau uniongyrchol. Prosiect yn cael ei weithredu drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.
22	Bod y Cyngor yn gweithio ar frys gydag asiantaethau a thrwy Brosiect Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe i wella seilwaith a chysylltedd band eang, gan ganolbwyntio ar ardaloedd o gysylltedd gwael neu ddim cysylltedd, yn enwedig trwy'r rhaglen 10 Tref Wledig. Pan fo'n bosibl, dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei atebion arloesol ei hun i ddiwallu angen lleol hefyd.	Costau i gael eu pennu ar sail achosion unigol.
23	Bod y Cyngor yn gwella prosesau hyrwyddo grantiau a gwasanaethau cymorth sydd ar gael i fusnesau ac eiddo preifat ar hyn o bryd i gynorthwyo eu cysylltedd digidol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
24	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r broses o hyrwyddo cyfleoedd presennol i ddatblygu sgiliau digidol a cheisio cyflwyno cymorth ychwanegol yn ôl y gofyn.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
25	Bod y Cyngor yn adeiladu ar drefniadau presennol i weithio gyda phob partner â buddiant yn y sector twristiaeth i greu a hyrwyddo cynnig cyrchfan Sir Gaerfyrddin.	Dim costau uniongyrchol i gychwyn – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl nodi cyfleoedd.

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
26	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phob partner â buddiant yn y sector twristiaeth a chymunedau lleol i ddatblygu, cefnogi a hyrwyddo rhaglen o ddigwyddiadau/gwyliau lleol ar draws y sir drwy'r flwyddyn.	Dim costau uniongyrchol i gychwyn – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl nodi cyfleoedd.
27	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a'r sector preifat i nodi cyfleoedd i roi sylw i'r bwch presennol o ran darpariaeth awyr agored a phob tywydd yn y sir.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl nodi cyfleoedd.
28	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd trafndiaeth gymunedol ledled y sir, a ddylai ystyried pob modd trafndiaeth ymarferol i fynd i'r afael ag anghenion lleol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl nodi cyfleoedd.
29	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried buddsoddiad pellach yn y rhwydwaith pwyntiau gwefru trydanol ar draws y sir gyda phwyslais ar ddatblygu'r seilwaith yn rhan o'r fenter 10 Tref Wledig.	Nodwyd cyllid LEADER i gynllunio a datblygu seilwaith.
30	Bod y Cyngor yn adeiladu ar ddull Llwybr Beicio Dyffryn Tywi trwy ymchwilio i ymarferoldeb datblygu llwybrau beicio ychwanegol ar linellau rheilffordd segur ledled y sir.	Astudiaeth ddichonoldeb i gael ei chynnal. Costau darparu i gael eu canfod.

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
31	Bod y Cyngor yn gwella'r broses o hyrwyddo ei gynllun Ceir Cefn Gwlad.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
32	I lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid tymor hwy ar gyfer model llwyddiannus Bwcabus.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
33	Bod y Cyngor yn archwilio'r holl opsiynau posibl i gefnogi ei raglen cynnal a chadw i sicrhau bod cyflwr ffyrdd gwledig yn cael ei wella.	Angen amcangyfrif o £15m ar gyfer yr atgyweiriadau mwyaf brys (ar draws y sir). £3m wedi ei sicrhau hyd yn hyn trwy grant Llyw. Cymru
34	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio i ymarferoldeb datblygu cyfleusterau prosesu llaeth a arweinir gan fentrau cydweithredol yn Sir Gaerfyrddin ar sail micro/macro ac yn cytuno ar ffordd ymlaen pan fydd y canfyddiadau yn hysbys.	Astudiaeth ddichonoldeb i gael ei chynnal. Costau darparu i gael eu canfod.
35	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio i ymarferoldeb datblygu brand Sir Gaerfyrddin ar gyfer bwyd a gynhyrchir yn lleol.	Astudiaeth ddichonoldeb i gael ei chynnal. Costau darparu i gael eu canfod.
36	Bod y Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio datblygu cyfleoedd ar gyfer caffaeliad sector cyhoeddus o fwyd a gynhyrchir ac a gyflenwir yn lleol yn ogystal â ffyrdd y gall y sector cyhoeddus gynorthwyo cynhyrchwyr bwyd lleol i sefydlu, datblygu a thyfu eu busnesau. Os ystyrir bod y dull hwn yn llwyddiannus ac yn briodol, gellid ei ymestyn i alluogi nwyddau a	Nodwyd cyllid ar gyfer y gwaith mapio cychwynnol. Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain y cais am grant i

Argymhellion	Cost a Amcangyfrifir
gwasanaethau sector cyhoeddus eraill i gael eu caffael yn lleol, a fydd yn cefnogi punt Sir Gaerfyrddin wedyn.	gynorthwyo datblygiad pellach.
37 Bod y Cyngor yn ystyried galw a chyfleoedd ar gyfer datblygu busnesau ac unedau cynhyrchu cysylltiedig â bwyd canolog eu maint.	Astudiaeth ddichonoldeb i gael ei chynnal. Costau darparu i gael eu canfod.
38 Bod y Cyngor yn gweithio gydag asiantaethau eraill ac yn eu cynorthwyo, yn enwedig trwy raglen Mentro / Venture Cyswllt Ffermio, i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo a datblygu cyfleoedd ar gyfer mentrau o fath ffermio ar y cyd.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
<p>39 I lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw raglenni ariannu ar ôl Brexit a sefydlir i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Yn parchu amrywiaeth y sector amaethyddol yn llawn, gan adlewyrchu'r cyfraniad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y mae'r sector yn ei wneud at gymunedau gwledig yn eu cyfanrwydd b. Yn peidio â chael effaith negyddol anghymesur ar weithrediadau amaethyddol ar raddfa lai a ffermydd teuluol traddodiadol c. Yn ymateb i'r angen am dwf economaidd ac yn cael eu halinio yn agosach i gynlluniau datblygu economaidd a sgiliau ehangach Llywodraeth Cymru <p>Rydym hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei chynlluniau i ddiddymu taliadau uniongyrchol yn y dyfodol, a allai ansefydlogi'r diwydiant yng Nghymru gan ei fod yn neilltuo Cymru o ddull gwledydd eraill a fyddai'n gystadleuwyr uniongyrchol yn y diwydiant.</p>	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
40 Pan fydd sefyllfa Brexit yn hysbys, bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried cyfleoedd i ehangu marchnad fewnol Sir Gaerfyrddin / Cymru / y DU ar gyfer cynnyrch cig eidion, cig oen, dofednod a phorc.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
		eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
41	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r dull a'r defnydd o fentrau cymdeithasol fel model posibl ar gyfer darparu prosiectau a gwasanaethau a arweinir gan y gymuned ledled y sir.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
42	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o nodi, cynorthwyo a datblygu gwirfoddolwyr ledled y sir.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
43	Bod y Cyngor yn gweithio gyda Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr i sicrhau perthynas waith a strwythur cymorth agosach yn y dyfodol.	Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
44	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i ymateb i broblemau yn ymwneud ag unigrwydd ac arwahanrwydd.	Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
45	Bod y Cyngor yn gweithio gyda Heddlu Dyfed–Powys i fynd i'r afael â phroblemau trosedd wledig sy'n effeithio ar y sir ac i fonitro unrhyw dueddiadau o ran materion cydlyniant cymunedol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
46	Bod y Cyngor yn ailystyried y model cyflawni ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau hamdden mewn ardaloedd gwledig gyda'r nod o greu darpariaeth gynaliadwy a hygyrch o wasanaethau yn y dyfodol. Dylid cysylltu hyn â'r rhaglen Deg Tref Wledig.	Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
47	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r broses o hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu datblygiad a defnydd o ynni adnewyddadwy yn y sectorau preifat, cyhoeddus a chymunedol.	Dim costau uniongyrchol i gychwyn – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
48	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi datblygiad cynlluniau ynni cymunedol.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
49	Bod y Cyngor yn ceisio cynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy i gyflenwi safleoedd y Cyngor.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddatblygu. Costau i gael eu pennu ar ôl i gyfleoedd gael eu nodi.
50	I lobïo Llywodraeth Cymru i ariannu a chefnogi gweithredu uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin, gan weithio mewn partneriaeth â ffermwyr a sefydliadau lleol i fynd i'r afael â'r problemau llygredd dŵr a wynebir ar hyn o bryd.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
51	I lobïo Llywodraeth Cymru i ailystyried cyflwyno'r rheoliadau Parthau Perygl Nitradau (NVZ) arfaethedig (sydd â'r nod o wella ansawdd dŵr trwy gyfyngu'r cyfnod sydd ar gael ar gyfer gwasgaru slyri) a chanolbwyntio camau uniongyrchol ar droseddwy'r camreoli slyri ailadroddus yn hytrach na gorfodi cosbau ar bob ffermwr.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.

Argymhellion		Cost a Amcangyfrifir
52	Bod y Cyngor yn gweithio gyda chymunedau lleol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a phroblemau rheoli gwastraff mewn ardaloedd gwledig, ac yn monitro effaith newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar yng nghanolfannau ailgylchu a safleoedd tirlenwi'r Cyngor o ran lefelau tipio anghyfreithlon mewn ardaloedd gwledig.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
53	I lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn rhoi pwyslais ac adnoddau digonol i anghenion penodol cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin, gan weithio'n rhanbarthol pan fo'n briodol trwy gytundeb gwledig posibl.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
54	Bod y Cyngor yn hwyluso trafodaeth barhaus gyda phartïon â buddiant a rhanddeiliaid i sicrhau darpariaeth a datblygiad pellach strategaeth materion gwledig y Cyngor, gan weithio mewn ffordd amlasiantaeth ac amlsector.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.
55	I lobïo Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cenedlaethol eraill i wella dealltwriaeth o'r heriau, y pwysau a'r logisteg o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn cymuned wledig ac ailystyried ei diffiniad o amddifadedd i adlewyrchu'n well materion yn ymwneud â natur wledig.	Dim costau uniongyrchol – capasiti swyddogion i'w ddarparu.

b. Cylch Gorchwyl Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin

Nod

Ystyried y materion sy'n effeithio ar y cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin a nodi camau y gall y Cyngor, mewn partneriaeth â chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill, eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hynny i sicrhau a chynorthwyo adfywio gwledig yn y blynyddoedd i ddod.

Amcanion

- Dehongli a dadansoddi unrhyw wybodaeth, data ac ymchwil berthnasol ar lefel genedlaethol, sirol a ward, gan nodi unrhyw faterion allweddol sy'n cael effaith leol.
- Ymgynghori ag amrywiaeth mor eang â phosibl o randdeiliaid â buddiant mewn materion gwledig a chymryd tystiolaeth ganddynt i nodi'r materion penodol sy'n effeithio ar gymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin.
- Ystyried canfyddiadau adolygiadau cenedlaethol diweddar a chyfredol o faterion gwledig a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw sefydliadau eraill fel sy'n briodol.
- Cytuno ar y ffordd ymlaen i fynd i'r afael ag adfywio gwledig yn Sir Gaerfyrddin.

Aelodaeth

Yn ogystal â'r Cadeirydd, bydd y grŵp trawsbleidiol yn cynnwys naw o aelodau etholedig. Bydd y grŵp yn cadarnhau cynrychiolwyr fel a ganlyn:

- Tri chynrychiolydd Grŵp Plaid Cymru
- Tri chynrychiolydd y Grŵp Annibynnol
- Tri chynrychiolydd y Grŵp Llafur

Trefniadau'r Grŵp Gorchwyl

- Bydd y Grŵp Gorchwyl yn cael ei gadeirio gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am Faterion Gwledig.
- Bydd y Grŵp Gorchwyl yn cyfarfod bob mis am y chwe mis cyntaf ac yn cael ei adolygu wedi hynny.
- Bydd y Grŵp Gorchwyl yn adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Cyngor o fewn 12–18 mis o'i sefydlu.
- Bydd y Grŵp yn cael ei gynorthwyo gan y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth a swyddogion o'r Is-adran Adfywio a Pholisi, Adran y Prif Weithredwr.

c. Rhanddeiliaid, partneriaid a phartion â buddiant sydd wedi cyflwyno
gwybodaeth ac awgrymiadau i'r Grŵp Gorchwyl

Dyddiad y cyfarfod	Yn bresennol
21 Tachwedd 2017	Rhoddodd Llinos Quelch, Pennaeth Cynllunio, ac Ian Llewelyn, Rheolwr Blaengynllunio, drosolwg o faterion cynllunio.
	Rhoddodd Robin Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, drosolwg o faterion tai.
19 Rhagfyr 2017	Gwnaeth Jane Lewis, Rheolwr y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, gyflwyniad ar ddiwydiannau twf, gofynion sgiliau yn y dyfodol a gofynion dysgu.
	Rhoddodd Stuart Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd, drosolwg o weithgarwch economaidd cyfredol yn Sir Gaerfyrddin.
	Cyflwynodd Rhian Phillips, Rheolwr Ardal Datblygu Economaidd, wybodaeth am gyllid sydd ar gael.
22 Ionawr 2018	Derbyniwyd cyflwyniad gan Barry Liles, John Owen, David Davies, Mary Richards a Mike Williams o Goleg Sir Gâr.
	Roedd Tony Loizou, Creighton Harvey a David Saywell o Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Frank Jones o Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn bresennol yn y cyfarfod.
19 Chwefror 2018	Derbyniwyd cyflwyniad gan Aled Davies a Bronwen Gardener o NFU Cymru.
	Gwnaeth David Waters, Swyddog Gweithredol y Sir, ac Ian Rickman, Is-lywydd De Cymru, gyflwyniad ar ran Undeb Amaethwyr Cymru.
26 Mawrth 2018	Rhoddodd Ed Hunt, Cyfarwyddwr Mynediad Cenhedlaeth Nesaf y Gorllewin Openreach, ddiweddariad ar y cynnydd diweddaraf a'r camau nesaf o ran cyflwyno band eang cyflym iawn.
9 Ebrill 2018	Ymweliad â Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb, lle derbyniwyd cyflwyniad gan Arwyn Davies, Rheolwr Datblygu Busnes.
21 Mai 2018	Gwnaeth Mike Galvin, Arweinydd Digidol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, gyflwyniad ar y Prosiect Seilwaith Digidol. Roedd Ed Hunt, Cyfarwyddwr Mynediad Cenhedlaeth Nesaf Cymru

	Openreach, a Tony Morgan, Arweinydd Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol Openreach, hefyd yn bresennol.
	Derbyniwyd cyflwyniad gan y Prif Arolygydd Steve Thomas ar Strategaeth Troseddau Gwledig Heddlu Dyfed–Powys.
9 Gorffennaf 2018	Gwnaeth Eirwen Williams, Cyfarwyddwr, a Carys Thomas, Rheolwr Rhanbarthol De Cymru Menter a Busnes, gyflwyniad ar y cymorth y maent yn ei ddarparu.
7 Medi 2018	Cynhadledd Materion Gwledig
5 Tachwedd 2018	Gwnaeth y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, a Deina Hockenhull, Rheolwr Cyfryngau a Marchnata, gyflwyniad ar y gwasanaeth twristiaeth.
	Gwnaeth Nia Ball, Prif Weithredwr, a George Reid, Cadeirydd Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr, gyflwyniad.
20 Tachwedd 2018	Stephen Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd
	Rhoddodd Ian Llewelyn, Rheolwr Blaengynllunio, ddiweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol.
10 Rhagfyr 2018	Huwel Manley, Rheolwr Gweithrediadau y Gorllewin, ac Ioan Williams, Rheolwr Tîm Sir Gaerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru
	Neil Lewis, Rheolwr, a Cara Hope, Cydgysylltydd Lleol Ynni, Ynni Sir Gâr
5 Chwefror 2019	Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant, Simon Davies, Pennaeth Mynediad at Addysg, a Lisa Grice, Rheolwr Gofal Plant a Digonolrwydd Chwarae, Cyngor Sir Caerfyrddin
	Marie Mitchell, Prif Weithredwr, a Clare Pilborough, Swyddog Ymgysylltu, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
	Marc Davies, Rheolwr Prosiect Cymunedau Digidol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru
9 Ebrill 2019	Gwnaeth Dr Mark Lang, Prifysgol Caerdydd, gyflwyniad ar ei Adolygiad Lle Llanymddyfri.
	Darparodd Jake Morgan, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, a Rhian Dawson, Cyfarwyddwr Sirol Sir Gaerfyrddin Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, wybodaeth am y gofal gwledig.
1 Mai 2019	Rhoddodd Endaf Griffiths grynodedb o waith ystadegol a wnaed gan Wavehill.

	Roedd Nigel Williams, Castell Howell, Simon Wright, Wright's Food Emporium, ac Ian Hussell, Record Industrial Brushes, yn bresennol yn y cyfarfod i gael safbwynt y sector busnes.
--	--

d. Ymgynghoriad Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin – Adroddiad Cryno



Adroddiad Ymgynghoriad Materion Gwledig 2018

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

YMGYNGHORIAD MATERION GWLEDIG

CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl trawsbleidiol i ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Y nod yw nodi camau y gall y Cyngor, mewn partneriaeth â chyrrff a sefydliadau cyhoeddus eraill, eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godir i sicrhau a chynorthwyo adfywio gwledig yn y blynyddoedd i ddod. Gofynnodd yr arolwg a gynhaliwyd o ddiwedd mis Tachwedd 2017 tan ddiwedd mis Ebrill 2018 am safbwyntiau trigolion a rhanddeiliaid ar y materion sy'n bwysig i sicrhau ffyniant ein cymunedau gwledig yn y dyfodol. Derbyniwyd 335 o ymatebion i'r arolwg ac un ymateb sefydliadol.

Mae'r adroddiad hwn:

- 1) Yn amlinellu'r dull a'r dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd
- 2) Yn cynnig dadansoddiad o'r canlyniadau a'r canfyddiadau allweddol

1) AMLINELLIAD O'R DULL A'R DULLIAU YMGYNGHORI

Defnyddiwyd dulliau cymysg i ganfod safbwyntiau trigolion, busnesau, grwpiau trydydd sector, sefydliadau cymunedol, rhanddeiliaid ac unrhyw sectorau eraill â buddiant o ran cynorthwyo datblygiad ein cymunedau gwledig. Lluniwyd cwestiynau ansoddol a meintiol i gasglu safbwyntiau ar y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Yn benodol, canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar gasglu safbwyntiau ar y materion sy'n bwysig i sicrhau ffyniant ein cymunedau gwledig yn y dyfodol.

Cyhoeddusrwydd


Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy swyddfa'r wasg y Cyngor, trwy ffyrdd a oedd yn cynnwys: datganiadau i'r wasg; erthygl yn y *Carmarthenshire News*; gwybodaeth ar wefan y Cyngor; porth ymgynghori ar-lein (wedi ei gynnal ar iLocal), a ffrydiau cyfryngau cymdeithasol. Roedd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn bresennol yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ar 27 a 28 Tachwedd 2018 i lansio'r ymgynghoriad ac i siarad yn uniongyrchol â rhanddeiliaid. Gofynnwyd i bartneriaid fel y Ffermwyr Ifanc, NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, a chynghorau tref a chymuned rannu gwybodaeth am yr arolwg gyda'u haelodau.

Arolwg

Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau ymateb sefydlog (caeedig) ac ymateb rhydd (agored). Hefyd, roedd yr arolwg wedi ei ddylunio i gasglu atebion ansoddol a meintiol at ddibenion dadansoddi data.


Arweiniodd yr ymarfer ymgynghori at 335 o ymatebion, a gasglwyd trwy arolygon papur, yn electronig a thrwy gyflwyniadau llechen. Cyflwynir gwybodaeth ddemograffig isod.

A ydych chi'n ymateb fel...



- Unigolyn
- Busnes
- Cyngor Tref a Chymuned
- Sefydliad neu grŵp arall

Beth yw eich grŵp oedran? (%)



Nodwedd Ddemograffig	% Cyffredinol
Gwrywaidd	35.1%
Benywaidd	61.1%
Well peidio dweud	3.8%
Statws perthynas	
Sengl	11.4%
Priod	65.2%
Wedi gwahanu	1.4%
Wedi ysgaru	3.4%
Gweddw	5.5%
Partneriaeth sifil	1%
Cyd-fyw	7.2%
Arall	3.8%
Well peidio dweud	3.8%
Cyfeiriadedd rhywiol	
Heterorywiol	86%
LHD	4%
Well peidio dweud	10%
Crefydd	
Oes	47%
Well peidio dweud	15%
Cyfrifoldebau gofalu	
Oes	13%
Well peidio dweud	5%

Nodwedd Ddemograffig	% Cyffredinol
Ethnigrwydd	
Gwyn	95.8%
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd	0.7%
Ethnig	0.7%
Arall	0%
Well peidio dweud	3.5%
Anabledd	
Oes	12%
Nac oes	84%
Well peidio dweud	4%
Iaith a ffefrir	
Cymraeg	35%
Saesneg	64%
Arall	1%
A yw eich rhywedd yr un fath nawr a phan gafodd ei neilltu pan gawsoch eich geni?	
Ydy	95.4%
Nac ydy	0.4%
Well peidio dweud	4.2%

2) DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU A'R CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau meintiol yr arolwg. Dadansoddwyd a chyflwynwyd pob cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg yn unigol isod.

Cwestiwn 1

Beth yn eich barn chi yw'r prif heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi tic wrth yr hyn yr oeddent yn ei gredu oedd y prif heriau sy'n wynebu'r gymuned wledig ac roeddent yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. Yn dilyn hyn, gofynnwyd iddynt roi esboniad pam roeddent yn teimlo bod y mater y rhoddwyd tic nesaf ato yn her allweddol (gellir gweld hyn yn y crynodeb dadansoddi ansoddol yn dilyn pob cwestiwn).

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r prif heriau a ddewiswyd gan yr ymatebwyr yn eu trefn.

Beth yn eich barn chi yw'r prif heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig?	
Cyfanswm yr ymatebwyr	333
Cyfleoedd cyflogaeth	213 64%
Band eang	201 60%
Gwasanaethau cyhoeddus, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd	154 46%
Trafnidiaeth	154 46%
Dyfodol amaethyddiaeth	145 44%
Bywyd cymunedol	113 34%
Priffyrdd	106 32%
Defnydd tir a chynllunio	108 32%
Tai	100 30%
Datblygu economaidd	89 27%
Addysg	82 25%
Cynhyrchu a phrosesu bwyd	48

	14%
Arall	28
	8%

Mae'r tabl ar y dudalen flaenorol yn dynodi bod ymatebwyr o'r farn mai cyfleoedd cyflogaeth yw'r brif her sy'n wynebu cymunedau gwledig, gyda 64% (n = 213). Dilynir hyn yn agos gan fand eang, y dywedodd 6 o bob 10 (60%; n = 201) o ymatebwyr ei fod yn un mater allweddol sy'n wynebu cymunedau gwledig.


Derbyniodd gwasanaethau cyhoeddus (fel iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden a llyfrgelloedd), trafniadaeth a dyfodol amaethyddiaeth ganran uchel o bleidleisiau hefyd a sgoriodd yr holl faterion allweddol hyn fwy na 40% (46%, 46% a 44%, yn eu trefn).

Fel y dangoswyd ar y dudalen flaenorol, derbyniodd llawer o faterion fel bywyd cymunedol (34%), priffyrdd (32%), defnydd tir a chynllunio (32%) a thai (30%) nifer sylweddol o bleidleisiau hefyd wrth i tua un rhan o dair o'r ymatebwyr ddewis y materion hyn fel prif her.

Wrth ystyried pen isaf y tabl, derbyniodd datblygu economaidd (27%) ac addysg (25%) nifer fawr o ddewisiadau o hyd, wrth i tua 1 o bob 4 ymatebwr eu nodi fel prif heriau sy'n wynebu'r gymuned wledig. Cynhyrchu a phrosesu bwyd (14%) oedd yr her a dderbyniodd y nifer leiaf o ymatebion.

Ceir graff bar isod yn dangos y canfyddiadau uchod.

Beth yn eich barn chi yw'r prif heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig?



Key to above graphic:

Employment opportunities – Cyfleoedd cyflogaeth

Broadband – Band eang

Public Services e.g. health & social care, leisure, libraries – Gwasanaethau cyhoeddus, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd

Transport – Trafnidiaeth

Future of Agriculture – Dyfodol amaethyddiaeth

Community Life – Bywyd cymunedol

Highways – Priffyrdd

Land Use and Planning – Defnydd tir a chynllunio

Housing – Tai

Economic Development – Datblygu economaidd

Education – Addysg

Food production and processing – Cynhyrchu a phrosesu bwyd

Other – Arall

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn cynnwys y dadansoddiad o sylwadau a wnaed yng nghwestiwn 1. Cynhaliwyd y dadansoddiad ar bob un o'r 13 opsiwn gan fod llawer o'r sylwadau yn nodi natur rhyng-gysylltiedig yr opsiynau. Hefyd, cynhaliwyd y dadansoddiad fel hyn i osgoi ailadrodd canfyddiadau.

Cwestiwn 1 – Beth yn eich barn chi yw’r prif heriau sy’n wynebu cymunedau gwledig?

Dadansoddiad ansoddol

Yn gyntaf, nododd llawer o ymatebwyr fod llawer o heriau yn wynebu cymunedau gwledig, sydd i gyd yn rhyngweithio â’i gilydd. Un o ganlyniadau’r heriau a nodwyd gan drigolion yw bod pobl ifanc yn cael eu gyrru oddi wrth gymunedau gwledig gan fod diffyg cyfleodd gwaith ac, yn aml, mae’r gwaith sydd ar gael yn talu’n wael. Hefyd, nid oes digon o wasanaethau a chyfleusterau sylfaenol ar gael yn rhwydd ar hyn o bryd i gadw pobl ifanc yn yr ardaloedd. Nododd llawer o drigolion hefyd y tebygolrwydd na fyddai oedolion ifanc yn aros mewn ardaloedd gwledig oherwydd y diffyg tai fforddiadwy.

Gwnaed llawer o sylwadau am ddiffyg ansawdd band eang yn yr ardal wledig a’i effaith ehangach ar y gymuned. Fel y soniwyd eisoes, nododd ymatebwyr fod hyn yn cael effaith ddifrifol ar geisio cadw pobl ifanc yn y gymuned wledig. Nododd llawer o ymatebwyr hefyd fod y diffyg cyfleusterau band eang yn creu problemau i fusnesau lleol a’r rhai sy’n hunangyflogedig a hefyd wedi creu problemau i fusnesau sy’n dymuno buddsoddi mewn ardaloedd gwledig. Priodolwyd ffactorau eraill i’r diffyg cyfleusterau band eang hefyd, fel dyfodol amaethyddiaeth a chynhyrchu a phrosesu bwyd, wrth i lawer o unigolion nodi y byddai gwella cyfleusterau band eang yn cael effaith sylweddol.

Un ffactor arall y cyfeiriwyd ato’n aml yn yr adran sylwadau oedd y diffyg cysylltiadau trafndiaeth mewn cymunedau gwledig, wrth i lawer o unigolion nodi pa mor anodd oedd hyn. Dywedodd llawer fod y gwasanaethau bws yn gyfyngedig ac nad ydynt yn cynnig unrhyw wasanaeth hwyr nac yn rhedeg bob dydd, sy’n cael effaith sylweddol ar allu trigolion i chwilio am waith. Gwnaeth rhai ymatebwyr eraill sylwadau ar yr effaith y mae diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn ei chael ar drigolion a’i fod wedi cynyddu’r tebygolrwydd o arwahanrwydd ac unigrwydd mewn ardaloedd gwledig. Soniwyd yn aml hefyd fod angen gwella’r seilwaith priffyrdd mewn cymunedau gwledig gan ei fod yn peri her i ddyfodol amaethyddiaeth a chynnal datblygiad economaidd cymunedau gwledig.

Yn olaf, gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau ar y diffyg gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yn yr ardal wledig, gan nodi bod hyn yn achosi her sylweddol. Adroddwyd yn aml fod y gwasanaethau hyn cryn bellter i ffwrdd a bod trafndiaeth gyhoeddus annigonol ar gael. Gwnaed sylwadau am ‘bryder’ a gofid y ffaith fod y gwasanaethau hyn yn bellter maith i deithio iddynt gyda phoblogaeth pobl hŷn sy’n cynyddu’n barhaus. Hefyd, nododd rhai ymatebwyr fod y diffyg gwasanaethau cyhoeddus lleol yn lleihau’r cyfle i gymdeithasu, a oedd yn cynyddu’r tebygolrwydd y bydd trigolion ar wahân ac yn unig.

Cwestiwn 2

Beth hoffech chi ei wella am eich cymuned wledig?

Mae’r tabl isod yn cyflwyno pa feysydd yr hoffai’r ymatebwyr eu gwella am eu cymunedau gwledig ac fe’u dangosir yn nhrefn y rhai a ddewiswyd amlaf.


Beth hoffech chi ei wella am eich cymuned wledig?	
Cyfanswm yr ymatebwyr	311
Band eang	177 57%
Cyfleoedd cyflogaeth	160 51%
Gwasanaethau cyhoeddus, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd	122 39%
Trafnidiaeth	115 37%
Dyfodol amaethyddiaeth	107 34%
Priffyrdd	93 30%
Defnydd tir a chynllunio	84 27%
Bywyd cymunedol	84 27%
Addysg	75 24%
Tai	72 23%
Datblygu economaidd	68 22%
Cynhyrchu a phrosesu bwyd	36 12%
Arall	30 10%

Fel y gwelir yn y tabl uchod, y ddau faes a dderbyniodd y nifer fwyaf o ymatebion oedd band eang a chyfleoedd cyflogaeth (51%). Yn ddiddorol, y ddau bwnc hyn oedd y mwyaf poblogaidd ymhlith ymatebwyr wrth nodi'r prif heriau sy'n wynebu'r gymuned wledig yng nghwestiwn 1 hefyd.

Derbyniodd llawer o bynciau eraill nifer sylweddol o ymatebion fel gwasanaethau cyhoeddus (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd – 39%), trafnidiaeth (37%), dyfodol amaethyddiaeth (34%) a phriffyrdd (30%). Hefyd, dewiswyd pynciau fel defnydd tir a chynllunio (27%), bywyd cymunedol (27%), addysg (24%), tai (23%) a datblygu economaidd (22%) gan tua 1 o bob 4 o ymatebwyr. Cynhyrchu a phrosesu bwyd dderbyniodd y nifer leiaf o atebion, wrth i ddim ond 12% o ymatebwyr ddewis yr opsiwn hwn.

Ceir graff bar isod yn dangos y wybodaeth uchod.

Beth hoffech chi ei wella am eich cymuned wledig?



Key to above graphic:

Broadband – Band eang

Employment opportunities – Cyfleoedd cyflogaeth

Public Services e.g. health & social care, leisure, libraries – Gwasanaethau cyhoeddus, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd

Transport – Trafnidiaeth

Future of Agriculture – Dyfodol amaethyddiaeth

Highways – Priffyrdd

Community Life – Bywyd cymunedol

Land Use and Planning – Defnydd tir a chynllunio

Education – Addysg

Housing – Tai

Economic Development – Datblygu economaidd

Food production and processing – Cynhyrchu a phrosesu bwyd

Other – Arall

Cwestiwn 2 – Beth hoffech chi ei wella am eich cymuned wledig?

Dadansoddiad ansoddol

Dywedodd llawer o ymatebwyr fod yr heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig yn ddibynol ar ei gilydd, h.y. band eang / cyflogaeth / trafndiaeth / iechyd. Mae gwasanaeth band eang annigonol yn cael effaith sylweddol ar gymunedau gwledig, gan effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth a gallu busnesau i redeg yn effeithlon ac yn rhwystr i bobl ifanc sy'n dymuno symud yn ôl i'w cymunedau i gychwyn busnes. Nodwyd ei bod yn hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn cynyddu cyllid i gymunedau gwledig er mwyn datblygu a gosod gwasanaethau band eang addas. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo hefyd y dylid gorfodi BT/Openreach i roi dyddiad gosod didwyll ac ar unwaith ar gyfer darparu cysylltiad ffeibr i'r adeilad yn y sir. Mae gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu magu yn Sir Gaerfyrddin wledig yn cael eu hunain yn gorfod symud i ffwrdd er mwyn dod o hyd i gyflogaeth addas. Nododd llawer hefyd y gallai band eang addas alluogi mwy o bobl i weithio o gartref a chaniatáu iddynt ofalu am berthnasau neu blant wrth wneud hynny, gan gynyddu llesiant a lleihau'r baich a'r galw ar wasanaethau gofal i'r henoed. Nododd llawer o ymatebwyr y byddai cyfleoedd cyflogaeth yn gwella pe bai band eang addas ar gael drwy'r sir gyfan.

Mynegodd llawer o ymatebwyr eu pryderon ynghylch dyfodol ansicr i'r diwydiant ffermio ac awgrymwyd ganddynt y byddai cyfleoedd/cymhellion i gynnal y diwydiant yn annog y genhedlaeth iau i gymryd mwy o ran ynddo. Nodwyd hefyd fod band eang addas yn hanfodol ar gyfer cynnal amaethyddiaeth ac unrhyw fusnesau gwledig eraill. Awgrymodd rhai y dylid annog busnesau i dyfu coed fel portffolio buddsoddi hirdymor yn y dyfodol, a fyddai'n creu cyflogaeth ac yn ategu cylch blynyddol amaethyddiaeth.

Dywedodd llawer fod rhai hawliau tramwy / llwybrau troed yn anhramwyadwy ac yn aneffnyddadwy i drigolion neu dwristiaid, a byddai gwella'r rhain yn cynyddu twristiaeth ac yn helpu'r economi leol ac yn creu cyflogaeth. Mae angen datblygiad economaidd i godi arian i gynnal a chadw priffyrdd a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch y polisi cynllunio, a theimlwyd bod angen ei ddiwygio er mwyn cynorthwyo datblygiad ac adfywio economaidd priodol mewn ardaloedd gwledig yn hytrach na bod yn rhwystr.

Pwysleisiodd llawer o sylwadau a dderbyniwyd bwysigrwydd cynnal gwasanaethau iechyd cyhoeddus. Dywedodd llawer o ymatebwyr fod yn rhaid i bobl mewn cymunedau gwledig deithio pellteroedd maith i gael mynediad at gyfleusterau iechyd, sy'n achosi straen oherwydd mynediad annigonol at gludiant. Teimlwyd ei bod yn anodd mynd i apwyntiadau iechyd oni bai fod gennych fynediad at eich cludiant eich hun, gyda llawer o'r llwybrau trafndiaeth gyhoeddus ar briffyrdd ac ymhell oddi wrth adeiladau gwledig fel rheol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o gymorth i grwpiau lleol sy'n cynorthwyo gofal cymdeithasol ac iechyd a system well ar gyfer apwyntiadau meddyg teulu.

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod cyfleusterau gofal cymdeithasol ac iechyd fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn hanfodol. Dywedodd rhai fod unigrwydd yn broblem fawr i bobl o bob oed ac y gall effeithio ar iechyd a llesiant. Byddai menter gymunedol leol yn annog rhyngweithio cymdeithasol traws-genhedlaeth yn werthfawr ac yn gymharol rad i'w darparu. Mae'n anodd datblygu cymuned lle nad oes unrhyw adnoddau i gysylltu â nhw. Mae llawer o bobl oedrannus yn teimlo wedi eu hallgáu o gymunedau oherwydd diffyg cludiant, toiledau cyhoeddus, mannau eistedd a lleoliadau cymunedol

canolog i gyfarfod ynddynt, h.y. caffis, llyfrgelloedd. Awgrymwyd y dylai canolfannau dydd fod ar gael ar gyfer cynnal cynullïadau cymdeithasol yn y gymuned i drigolion sydd mewn sefyllfaoedd tebyg i gyfarfod.

Nododd yr ymatebwyr hefyd fod cau ysgolion, swyddfeydd post a banciau mewn ardaloedd gwledig yn cael effaith negyddol ar gymunedau. Hefyd, dywedodd llawer ei bod yn anodd denu gweithwyr meddygol proffesiynol i ardaloedd gwledig bach.

Dywedodd llawer nad yw'r drafnidiaeth gyhoeddus yn addas ar gyfer cymudwyr, gan orfodi pobl i ddefnyddio eu cerbydau eu hunain. Hefyd, nododd ymatebwyr nad yw'r seilwaith rheilffyrdd yn ymarferol oherwydd cyflymder ac amserlen y gwasanaethau.

Un awgrym arall oedd creu rhwydweithiau o Gyngorau Cymuned a Thref, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, wedi eu hwyluso gan y cyngor sir, er mwyn cydweithio ar gynnig atebion i rai o'r problemau a godwyd yn yr arolwg hwn. Yn benodol, dylai'r rhwydweithiau hyn gynnwys unigolion a grwpiau sydd ag arbenigedd neu sgiliau sydd efallai'n cael eu gwastraffu fel arall, yn ogystal â syniadau a chymhelliad i wneud i bethau ddigwydd.

Cwestiwn 3


Beth ydych chi'n fodlon ag ef yn eich cymuned wledig?

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r hyn y nododd yr ymatebwyr eu bod yn fodlon ag ef yn eu cymunedau gwledig yn nhrefn y rhai a ddewiswyd amlaf i'r rhai a ddewiswyd lleiaf aml.

Beth ydych chi'n fodlon ag ef yn eich cymuned wledig?	
Cyfanswm yr ymatebwyr	264
Bywyd cymunedol	141 53%
Addysg	63 24%
Gwasanaethau cyhoeddus, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd	48 18%
Arall	45 17%
Priffyrdd	46 17%
Tai	39 15%
Band eang	39 15%
Trafnidiaeth	38 14%
Defnydd tir a chynllunio	28 11%

Dyfodol amaethyddiaeth	27 10%
Cynhyrchu a phrosesu bwyd	25 10%
Cyfleoedd cyflogaeth	20 8%
Datblygu economaidd	12 5%

Fel y gwelir yn y tabl uchod, nododd dros hanner yr ymatebwyr (53%) eu bod yn fodlon â'r bywyd cymunedol yn y gymuned wledig. O'i gymharu ag eraill, dewiswyd yr opsiwn hwn lawer iawn mwy nag unrhyw un arall. Addysg oedd yr ail opsiwn uchaf y nododd ymatebwyr eu bod yn fodlon ag ef yn y gymuned wledig, ac fe'i dewiswyd gan tua 1 o bob 4 o ymatebwyr (24%). Nododd 18% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau cyhoeddus (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd) yn y gymuned wledig. Nododd rhai ymatebwyr agweddau 'eraill' y maent yn fodlon â nhw yn yr ardal wledig, ond o'u hastudio'n agosach, roedd llawer o'r nodweddion 'eraill' hyn yn debyg i'r opsiynau a ddarparwyd. Nododd 17% o ymatebwyr eu bod yn fodlon â phriffyrdd yn y gymuned wledig a derbyniodd tai (15%), band eang (15%), trafndiaeth (14%), defnydd tir a chynllunio (11%), dyfodol amaethyddiaeth (10%) a chynhyrchu a phrosesu bwyd (10%) i gyd 15%–10% o ddewisiadau unigol. Y ddau opsiwn a dderbyniodd y nifer leiaf o ymatebion oedd cyfleoedd cyflogaeth (8%) a datblygu economaidd (5%), lle nododd llai na 10% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r agweddau hyn.



Key to above graphic:

Community Life – Bywyd cymunedol

Education – Addysg

Public Services e.g. health & social care, leisure, libraries – Gwasanaethau cyhoeddus, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden, llyfrgelloedd

Highways – Priffyrdd

Other – Arall
Broadband – Band eang
Housing – Tai
Transport – Trafnidiaeth
Land Use and Planning – Defnydd tir a chynllunio
Future of Agriculture – Dyfodol amaethyddiaeth
Food production and processing – Cynhyrchu a phrosesu bwyd
Employment opportunities – Cyfleoedd cyflogaeth
Economic Development – Datblygu economaidd

Cwestiwn 3: - Beth ydych chi'n fodlon ag ef yn eich cymuned wledig?

Dadansoddiad ansoddol

Yn gyntaf, wrth archwilio'r ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn uchod, cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr at 'deimlad cymunedol' ac 'ysbryd cymunedol' ardaloedd gwledig. Nododd yr ymatebwyr fod gan ardaloedd gwledig synnwyr gwych o gymuned a bod y rhan fwyaf o unigolion yn barod i helpu ei gilydd. Nododd rhai fod y bywyd cymunedol yn cael ei greu gan y rhai sy'n angerddol am gadw'r gymuned wledig yn ffynnu ac yn fywiog. Hefyd, nododd rhai fod yr unigolion hyn yn gweithio'n ddiflino i helpu eraill yn eu cymuned i'w chadw'n fyw.

Ymateb cyffredin arall a dderbyniwyd ynghylch yr hyn sy'n gwneud preswlydd yn 'fodlon' yn ei gymuned oedd harddwch cefn gwlad. Nododd llawer o ymatebion eu bod yn 'caru' 'llonyddwch a thawelwch' ardaloedd gwledig. Hefyd, roedd rhai sylwadau yn nodi'r 'mannau gwyrdd agored' ac 'awyr iach' fel y prif ffynonellau o fodlonrwydd wrth fyw yn y gymuned wledig.

Nododd llawer o ymatebwyr fod yr ysgolion yn y gymuned wledig yn 'dda iawn' ac yn darparu addysg ragorol i blant ifanc. Gwnaed ymatebion eraill ynghylch cysylltiadau trafndiaeth a ffyrdd ardaloedd gwledig, gan nodi eu bod yn dda iawn o'u cymharu ag ardaloedd gwledig eraill mewn siroedd eraill. Er iddynt gael eu hamlygu fel ffynhonnell o fodlonrwydd mewn cymuned wledig, gyda llawer o sylwadau yn nodi bod pobl yn fodlon gyda'r drafndiaeth a'r ffyrdd, awgrymodd rhai nad yw hyn yr un fath i bob cymuned wledig a bod angen cynnal a chadw ychwanegol ar rai ffyrdd.

Cwestiwn 4

Pa dri pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i chi yn byw a/neu'n gweithio mewn cymuned wledig?

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn dangos y dadansoddiad ar gyfer y cwestiwn uchod. Gellir gweld y canlyniadau yn y tabl isod.

Cyfanswm		
Pwnc	Nifer y sylwadau	%
Priffyrdd	146	14.4

Band eang	134	13.2
Trafnidiaeth	116	11.4
Arall	115	11.3
Gwasanaethau cyhoeddus	88	8.7
Bywyd cymunedol	86	8.5
Cyfleoedd cyflogaeth	78	7.7
Datblygu economaidd	54	5.3
Defnydd tir a chynllunio	52	5.1
Dyfodol amaethyddiaeth	52	5.1
Tai	50	4.9
Addysg	40	3.9
Cynhyrchu a phrosesu bwyd	4	0.4
CYFANSWM	1015	100

Fel y gellir gweld o'r tabl, priffyrdd dderbyniodd y nifer uchaf o ddewisiadau, wrth i 14.4% o ymatebwyr nodi mai dyma fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf mewn cymuned wledig. Dilynwyd hyn yn agos gan fand eang (13.2%) a thrafnidiaeth (11.4%). Hefyd, nododd yr ymatebwyr fod meysydd 'eraill' a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y gymuned wledig pe baent yn cael eu gwella. Roedd pynciau eraill yn cynnwys:

- Buddsoddi mewn ynni cynaliadwy
- Aelodau etholedig rhagweithiol
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chadw a gorfodi mewnfudwyr i ddysgu'r iaith
- Banciau a swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig
- Ailgylchu gwell – casglu gwydr o dai
- Costau parcio
- Mwy o finiau
- Llai o dreth gyngor gan fod llai o wasanaethau ar gael
- Perthynas well gyda'r awdurdod lleol
- Ffordd o gadw pobl ifanc yn y sir
- Mwy o gymorth gyda gofal plant i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith

e. Adroddiad Cynhadledd Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin – 7 Medi 2018

Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin

Adroddiad Cynhadledd

7 Medi 2018

Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin

Adroddiad Cynhadledd

Cyflwyniad a Chefndir

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Medi 2017 gyda'r nod o ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin a nodi camau y gall y Cyngor, mewn partneriaeth â chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill, eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hynny i sicrhau a chynorthwyo adfywio gwledig yn y blynyddoedd i ddod. Nod y Grŵp yw paratoi adroddiad gydag argymhellion i'w gweithredu erbyn mis Mawrth/Ebrill 2019.

Mae'r Grŵp wedi bod yn ymgysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid i ystyried yn llawn y materion sy'n wynebu cymunedau gwledig ac roedd y gynhadledd ar 7 Medi 2018 yn gyfle i lawer o'r rhanddeiliaid hynny rannu eu safbwyntiau a'u profiadau er mwyn hysbysu'r adroddiad terfynol a'r argymhellion. Roedd hefyd yn gyfle i glywed gan arweinwyr cymunedau a busnesau am eu dealltwriaeth a'u dulliau.

Roedd dros 160 o bobl yn bresennol yn y gynhadledd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gynadledda Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.

Hwyluswyd y digwyddiad yn fedrus gan Aled Rhys Jones.

Mae'r canlynol yn cynnig crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan y siaradwyr unigol ac o'r grwpiau trafodaeth a gynhaliwyd yn ystod y gynhadledd. Bydd yr holl bwyntiau a godwyd yn cael eu hystyried gan Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin wrth

iddo baratoi ei adroddiad terfynol a'i argymhellion erbyn mis Mawrth/Ebrill 2019.

Y Cynghorydd Cefin Campbell, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig a Chadeirydd y Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig

Fel Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig, amlinellodd y Cynghorydd Campbell rai o'r materion allweddol a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl hyd yn hyn. Nodwyd ein bod yn wynebu cyfnod o ansicrwydd ond bod angen i ni ymateb yn gadarnhaol er mwyn ein cymunedau gwledig. Mae Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n eang ag amrywiaeth o randdeiliaid hyd yn hyn a chodwyd nifer o faterion allweddol eisoes.

Nodwyd bod 60% o drigolion Sir Gaerfyrddin yn byw mewn ardal wledig, ac mae hynny tua 120,000 o bobl. Mae ein cymunedau gwledig yn wahanol iawn o ran eu natur ac mae ganddynt anghenion amrywiol. Ni fydd yr un ateb yn gweithio ar draws pob cymuned wledig felly mae'n rhaid i ni ystyried gofynion penodol.

Nododd y Cynghorydd Campbell rai o'r materion allweddol sy'n wynebu ein cymunedau gwledig:

- Mae diboblogaeth ein pobl ifanc yn broblem fawr. Rydym yn colli amcangyfrif o 1,000 o bobl ifanc o Sir Gaerfyrddin bob blwyddyn, a byddai llawer o'r rheini o ardaloedd gwledig. Mae tua 60% o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg.
- Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio. Mae canran lai o bobl 20–39 oed yn byw mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn golygu ein bod yn colli arweinwyr y dyfodol wrth i bobl ifanc adael.
- Oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio, mae gennym anghenion ychwanegol gan wasanaethau cyhoeddus.
- Mae lefelau cynnyrch domestig gros mewn ardaloedd gwledig 70% yn is na chyfartaledd y DU. Mae lefelau incwm hefyd yn is.

Mae 87% o fusnesau gwledig yn Sir Gaerfyrddin yn cyflogi llai na naw o bobl, sy'n awgrymu bod gennym brinder busnesau canolig eu maint yn ein cymunedau gwledig.

- Rydym yn cydnabod bod prinder tai fforddiadwy, sy'n golygu na all pobl ifanc a theuluoedd ifanc brynu cartrefi yn Sir Gaerfyrddin wledig. Nid ydym yn unigryw yn hyn o beth gan ei bod yn ymddangos bod hon yn broblem ar draws y DU gyfan.
- Mae datblygiad busnes yn dibynnu ar fynediad at fand eang cyflym ac mae'r ddarpariaeth yn fylchog yn ein hardaloedd gwledig ar hyn o bryd.
- Mae banciau, siopau a thafarndai yn cau. Yn anffodus, mae hwn yn ddarlun cyffredin ar draws ardaloedd gwledig ac mae'n broblem arbennig i'n trefi marchnad, a oedd yn ffynnu ar un adeg.
- Mae gennym rai materion amgylcheddol y mae angen eu hystyried yn llawn. Mae llygredd afonydd yn faes y mae angen rhoi sylw iddo.
- Mae'r holl ffactorau uchod wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Grŵp Gorchwyl wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a derbyniwyd cyfanswm o 335 o ymatebion. Mae'r penawdau allweddol i'r adborth yn dynodi blaenoriaeth i'r meysydd canlynol:

- mwy o swyddi
- gwella band eang
- gwella gwasanaethau cyhoeddus
- gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- cymorth i'r sector amaethyddol

Mae'r Grŵp Gorchwyl hefyd wedi nodi angen i ystyried rhai materion ymhellach, gan gynnwys galluogi mwy o brosesu bwyd lleol yn Sir

Gaerfyrddin neu dde-orllewin Cymru, a fydd yn ychwanegu gwerth at gysyniad punt Sir Gaerfyrddin. Mae meysydd eraill y disgwylir i'r Grŵp Gorchwyl eu hystyried yn cynnwys trafndiaeth, twristiaeth, hamdden a gwasanaethau, sy'n cynnwys addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.

Mae Brexit, wrth gwrs, yn fater allweddol i'n cymunedau gwledig. Mae'n bosibl mai hwn fydd yr un digwyddiad mwyaf niweidiol i wynebu'r sector amaethyddol ers yr Ail Ryfel Byd. Ar hyn o bryd, nid ydym ddim agosach at wybod pa fath o fargen y byddwn yn ei tharo. Os byddwn yn cymho allan o'r UE heb gytundeb neu gyda chytundeb gwael, bydd y sgil-ffeithiau i gymunedau gwledig yn drychinebus. Amlinellodd y Cyngorydd Campbell rai ystadegau allweddol:

- Mae 90% o allforion bwyd a diod Cymru i'r UE
- Caiff 30% o gig coch Cymru ei allforio, 95% o hwnnw i'r UE
- Derbynnir £600 miliwn y flwyddyn yng Nghymru trwy daliadau uniongyrchol gan yr UE, 50% o hynny o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- Gallai newid i drefniadau caffael fod yn gadarnhaol gan y gallai hyn alluogi newid i allu cefnogi caffael lleol

Felly, dyma beth mae'r Cyngor yn ei wneud eisoes:

- Bydd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn arwain at gyfanswm o £1.3 miliwn o fuddsoddiad ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn creu 12,000 o swyddi ychwanegol dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd llawer o'r prosiectau o fudd i gymunedau gwledig yn ogystal ag ardaloedd mwy trefol y rhanbarth.
- Datblygiad llwybr beicio Dyffryn Tywi, a fydd yn arwain at fuddsoddiad gwerth £8 miliwn, a fydd yn rhoi hwb i gynnig twristiaeth yr ardal.
- Sefydlwyd Cronfa Menter Gwledig Sir Gaerfyrddin gwerth £2 filiwn i gynorthwyo busnesau.

- Bydd pwyslais ar gynorthwyo ein trefi marchnad dros y tair blynedd nesaf – bydd deg tref yn cael eu cynorthwyo, gan gychwyn gyda Llanymddyfri, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.
- Lansiwyd gwasanaeth llyfrgell symudol newydd.
- Sefydlwyd cwmni tai newydd a fydd yn caniatáu i ni adeiladu neu brynu tai i fynd i'r afael â'r broblem tai fforddiadwy yn y sir. Bwriedir darparu 1,000 yn fwy o dai fforddiadwy dros y tair blynedd nesaf, a sicrhawyd 50% o'r rhain eisoes.
- Bydd ffermydd cyngor yn cael eu cadw ym mherchnogaeth y Cyngor.
- Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ceisio cynorthwyo datblygiad mewn ardaloedd gwledig.
- Bydd strategaeth dwristiaeth yn cael ei datblygu.

I gloi, nododd y Cynghorydd Campbell, er bod cymylau duon ar y gorwel, fod gan bob un ohonom gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod yr hyn yr ydym wedi ei etifeddu gan ein cyndadau yn gallu ffynnu ar gyfer y dyfodol. Ni allwn gael ein goresgyn gan yr amgylchiadau ond mae'n rhaid i ni ddod o hyd i gyfleoedd, cael ein hysbrydoli a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau ac adeiladu ymhellach ar sylfeini ein sir gyfoethog ac amrywiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yr Athro Janet Dwyer, Athro Polisi Gwledig a Chyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw

Amlinellodd yr Athro Dwyer ganfyddiadau allweddol astudiaeth yr oedd wedi ei pharatoi ar ran Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Ionawr 2018, *'The Implications of Brexit for Agriculture, Rural Areas and Land Use in Wales'*.

Dywedodd ar gychwyn ei chyflwyniad fod yr ansicrwydd presennol ynghylch trefniadau cytundeb terfynol Brexit yn ei gwneud yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, i gynllunio'n briodol neu wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch polisi a dull yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae gan Gymru wledig bwyntiau cryf a gwan o ran ei sefyllfa economaidd a chymdeithasol. Dyma fydd y sectorau allweddol i ardaloedd gwledig: y sector cyhoeddus;

twristiaeth; busnesau bach a chanolig ym meysydd gweithgynhyrchu a chrefftau; a busnesau bwyd. Mae astudiaethau yn awgrymu bod tua 60% o fusnesau cofrestredig mewn trefi marchnad gwledig anghysbell yn gysylltiedig â ffermio. Ceir tystiolaeth hefyd fod diffyg cwmnïau canolig eu maint mewn ardaloedd gwledig yn gysylltiedig â seilwaith a gwasanaethau gwael.

Mae diweithdra mewn ardaloedd gwledig yn isel ond mae incwm cyfartalog hefyd yn is, sy'n golygu bod tlodi gwledig yn broblem, yn enwedig i aelwydydd pobl hŷn anghysbell.

Mae amgylchedd gwledig o ansawdd uchel yn gwella'n araf yn sgil pwysau yn y gorffennol, ond mae'n agored iawn i newid. Mae 30% o ardaloedd gwledig Cymru wedi eu dynodi'n ardal warchoddedig, a allai fod yn fantais o safbwynt twristiaeth. Mae Cymru yn ffynhonnell fawr o ddŵr yfed i Gymru a Lloegr. Mae gwasanaethau ecosystemau yn dibynnu ar reoli tir sensitif ond mae lliniaru a rheoli llifogydd yn fater sy'n peri pryder cynyddol. Mae newidiadau parhaus yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd Cymru yn wlypach.

Mae gan Sir Gaerfyrddin gydbwysedd o fathau o ffermydd yn y sir a llaeth yw'r prif sector, ond ceir cydbwysedd da o ddefaid, gwartheg eidion, cnydio cyffredinol, moch, dofednod a garddwriaeth. Gallai'r amrywiaeth hon fod yn fantais i'r sector amaethyddol yn Sir Gaerfyrddin o'i chymharu ag ardaloedd eraill sy'n llawer mwy dibynnol ar fathau penodol o ffermydd. Bydd addasiad a goroesiad busnesau yn y dyfodol yn ddibynnol ar yr amrywiaeth hon.

Mae ffermydd da byw pori yn dibynnu ar gymorth Colofn 1 a Cholofn 2 y Polisi Amaethyddol Cyffredin a bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau ariannu yn creu pryderon cymdeithasol, lles ac iechyd sylweddol ymhlith teuluoedd fferm, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin, Powys a Gwynedd.

O ran prif gynhyrchion, patrymau masnachu a thueddiadau, cig defaid sydd flaenaf o bell ffordd o ran cynhyrchu yng Nghymru ac mae'r rhan fwyaf yn cael ei allforio i'r UE. Mae mwy o gig eidion a chynhyrchion llaeth yn cael eu bwyta yn y DU, ond ceir mewnfion allweddol yn y sectorau hyn o Iwerddon. Mae garddwriaeth a dofednod yn fach, ond ceir potensial ar gyfer twf yn y sectorau hyn. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar fewnbwn / tueddiadau prisiau ynni. Mae twristiaeth a hamdden yn incwm pwysig i rai ac mae incwm oddi ar y fferm yn helpu mwy na 40% o aelwydydd fferm. Mae coedwigaeth hefyd yn dangos potensial ar gyfer datblygiad pellach, yn enwedig os bydd prisiau tanwydd yn cynyddu.

Mae rhai o'r pwyntiau allweddol sy'n llunio effeithiau Brexit ar hyn o bryd yn cynnwys:

1. Amodau masnachu yn y dyfodol: Gallai tariffau rhwng y DU a'r UE fod yn 0%–40%, 60% hyd yn oed; gallent amrywio o gynnyrch i gynnyrch. Gallai rhwystrau tariff is gyda thrydydd gwledydd fod yn bosiblwydd hefyd, ond nid yw'n debygol am ddeng mlynedd.
2. Cyllid cyhoeddus i ffermydd ac ardaloedd gwledig yn y dyfodol: a fydd hwn yr un faint, yn is neu'n uwch? Mae llywodraethau'r DU a Chymru eisoes wedi pennu blaenoriaethau a nodau newydd. Os yw cymhorthdal yn mynd i barhau ac y defnyddir fformiwla Barnett i ddyrannu cyllid i Gymru, bydd yn golygu'n syth y byth 50% yn llai i Gymru na'r hyn a dderbynnir trwy gyllid y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar hyn o bryd.
3. Trefn reoleiddio ac amodau economi ehangach: cryf neu wan? Cyfradd cyfnewid arian cyfred bresennol?

Mae rhai themâu cyffredin yn dechrau dod i'r amlwg nawr y mae angen i ni eu hystyried ymhellach wrth i drefniadau ar ôl Brexit ddod yn fwy eglur:

- Gostyngiad tebygol o ran cynhyrchu defaid yn dilyn 'oes aur' byrdymor, angen ailstrwythuro ac ailgyfeirio'r busnesau hyn
- Lle ar gyfer twf cymedrol yn y sectorau eidion a llaeth cyn cytundebau masnach newydd
- Bydd ymateb y gadwyn fwyd yn allweddol: teyrngarwch a pharodrwydd i fuddsoddi yng Nghymru a chynhyrchion Cymru, prasio tymor hwy a thwf y farchnad, bydd gweithredwyr mwy yn rhagweld ac yn ymateb yn gyflym i newid
- Gallai pwysau sector cyhoeddus arwain at fwlch mwy rhwng galw a chyflenwad o ran gwasanaethau gwledig, yn enwedig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- Er ei fod braidd yn weledol mewn ystadegau, mae'r dirywiad i ffermio yn bygwth:
 - Hyfywedd cymunedau mewn ardaloedd anghysbell
 - Defnydd tir a gwasanaethau ecosystemau: llai o bori ar fryniau, ffermio dofednod neu laeth mwy dwys mewn rhai ardaloedd – effeithiau cyfalaf a thwristiaeth naturiol?
- Cyfleoedd ar gyfer defnyddiau tir newydd: coedwigaeth, garddwriaeth, gwinwydd, ynni a hamdden, tai?

I gloi, nododd yr Athro Dwyer ddwy flaenoriaeth allweddol ar gyfer cymunedau gwledig yn y dyfodol.

Y cyntaf o'r rheini yw **addasu**. Mae angen paratoi ffermydd Cymru, rheolwyr ucheldir a busnesau gwledig ar gyfer newidiadau mawr.

- Bydd angen pwyslais ar uwchsgilio a datblygu capasiti ar gyfer gweithredu ac arloesi grŵp, dysgu, a chyfnewid syniadau
- Bydd angen cymorth i'r genhedlaeth hŷn a busnesau sydd mewn trafferthion adael gydag urddas
- Mae angen datblygu strategaethau ymdopi ar lefel ffermydd a chymunedau
- Hybu seilwaith diwydiant bwyd/gwledig ar raddfa ganolig
- Prawfesur y newidiadau hyn o safbwynt anghenion amgylcheddol (e.e. dim toriadau sydyn, rheolaethau cynllunio cytbwys)
- Cynyddu cydnerthedd y sector bwyd-amaeth a chymunedau trwy bartneriaethau hirdymor newydd
- Mwy o waith partneriaeth rhwng llywodraeth a diwydiant, llywodraeth a chymunedau, a sectorau allweddol yr economi wledig, gan gynnwys darparwyr ariannol

Dylai'r ail flaenoriaeth ganolbwyntio ar ddatblygu **fframwaith cymorth newydd**.

- Bydd angen dull wedi'i deilwra o ddarparu cymorth cyhoeddus, i gynnal a gwella adnoddau naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a bywiogrwydd gwledig ledled Cymru, er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Cynllun bwyd, adnoddau naturiol a thirweddau hyfyw i Gymru, yn cynnwys targedau cenedlaethol eglur y cytunwyd arnynt
- Dull hyblyg, wedi'i deilwra'n lleol a'i ddatblygu gyda ffermwyr, coedwigwyr, cymunedau a rhanddeiliaid eraill, yn cynnig lle ar gyfer cyllid preifat yn ogystal â chyhoeddus, gan gefnogi canlyniadau economaidd, cymdeithasol/diwylliannol ac amgylcheddol gyda'i gilydd
- Bydd angen asiantau darparu yr ymddiriedir ynddynt ar gyfer y dull hwn, sy'n gallu darparu cyflwyniad didrafferth gyda monitro a rheolaeth deallus a chyfran deg o gyllideb y DU

Bydd y cysylltiadau rhwng pobl, yr amgylchedd a diwylliant yn hanfodol ar gyfer dyfodol ein cymunedau gwledig a bydd sicrhau dull partneriaeth ar draws sectorau o fudd i bob parti ar gyfer y dyfodol.

Gerallt Llewelyn Jones, cyn-Gyfarwyddwr Menter Môn

Yn ei swyddogaeth fel cyfarwyddwr Menter Môn, arweiniodd Gerallt Llewelyn Jones yr asiantaeth fenter i ddod yn ddarparwr datblygu amrywiol ac yn fusnes menter gymdeithasol. Mae'r asiantaeth yn ceisio datblygu'r economi o'r tu mewn, gyda phwyslais ar ychwanegu gwerth at adnoddau naturiol a dynol. Rhannodd gyda'r gynhadledd ei brofiadau o symud yr asiantaeth yn ei blaen a chynigiodd awgrymiadau ar gyfer adfywio gwledig yn y dyfodol.

Mae'r ysgogwyr allweddol ar gyfer gwaith Menter Môn yn cynnwys pwyslais ar yr economi wledig trwy:

- fusnes ac amaethyddiaeth;
- datblygu cynhyrchion newydd;
- cymorth i gymunedau o ddiddordeb; a
- chanolbwyntio ar atebion ymarferol.

Bydd yr asiantaeth hefyd yn gweithio yn unol â thair egwyddor sylfaenol:

1. Arloesedd:

Yr hyn sy'n ein gwneud yn wahanol sy'n ein gwneud yn ddiddorol. Yr hyn sy'n ein gwneud yn ddiddorol sy'n ein gwneud yn wertheadwy. Yr ardaloedd gwledig mwyaf llwyddiannus yn Ewrop yw'r rhai sy'n ychwanegu gwerth at y gwahaniaethwyr adnodd unigryw hyn a'u harneisio i ddatblygu eu heconomïau, gan ddringo'r ysgol fyd-eang drwy hynny (Yves Champetier, 1990).

2. Ymgyrchu: ymgysylltu, casglu, herio ac ymgyrchu i ddod o hyd i arloesiadau ac atebion.

3. **Pragmatiaeth:** mae'n rhaid bod yn gyfaill â hon a'i pharchu.

Yr unig ffordd i ymateb i'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig yw cydweithio mewn partneriaeth. Ni fydd unrhyw grŵp neu sefydliad unigol yn gallu ymateb i'r heriau ar ei ben ei hun ac felly mae angen creu cynnwrf yn y cymunedau o ddiddordeb yn Sir Gaerfyrddin. Mae angen cwestiynu goddefiadau ac ysgogi tir cyffredin rhwng grwpiau a sefydliadau yn amcanion a phrosiectau. Ymgyrchu pragmatig yw'r enw ar hyn.

Mae'n rhaid i ni fod yn gyson greadigol a datblygu ffyrdd o ychwanegu gwerth at yr hyn sydd gennym i'w gynnig a'r hyn sy'n ein gwneud yn wahanol. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd cyfrifoldeb am ddod o hyd i'n hatebion ein hunain. Nid oes unrhyw ddiben aros am atebion o'r tu allan; mae'n rhaid i ni ddatblygu a gwneud yr hyn sy'n gweithio i'n cymunedau.

Cyfeiriodd Gerallt Llewelyn Jones at symptomau dirywiad a defnyddiodd fetaffor meddygol i herio'r ffordd yr ydym yn ymateb i ddatblygu cymunedol. Wrth feddwl am symptomau, prognosis, gwellhad, mae gennym ddisgwyliadau afresymol o achubwyr allanol, o lywodraeth, o fewnfuddsoddwyr, nad ydynt yn caniatáu i ni feddwl y tu hwnt i'n dadansoddiad o'r symptomau. Fodd bynnag, ni all llywodraeth a mewnfuddsoddiad ar eu pen eu hunain adfywio economïau gwledig. Mae'n rhaid i'r claf feddwl y tu hwnt i symptomau a phrognosis gwael. Beth mae angen i ni ei wneud, felly?

- Nodi grŵp **arweinyddiaeth** i arwain newid mewn cymunedau o oddefol i ragweithiol.
- **Addysg** yn y gymuned: menter unigol / menter gymdeithasol / tyfu bwyd / ynni adnewyddadwy.
- Mae cryfhau **hunaniaeth a pherthyn cymunedol** yn hanfodol. Nid yw capeli ac ysgolion a thafarndai yn ei wneud mwyach – bydd gweithgareddau ar y cyd newydd yn ei wneud.
- Archwilio a chroesawu **strythurau newydd ar gyfer newid** – ymddiriedolaethau tir cymunedol, ymddiriedolaethau tai, trosglwyddo asedau ysgolion gwag, tir sy'n eiddo i'r Cyngor.
- **Archwiliadau sgiliau** yn y gymuned: herio trigolion – beth allwch chi ei gyfrannu?
- Ailsefydlu **amrywiaeth bwyd** trwy weithredu cymunedol ar y cyd – ailgysylltu pobl â'r tir, at dyfu ac ychwanegu gwerth.
- Sefydlu **Clybiau Menter a Labordai Saernïo** – unigolion yn gwneud pethau, yn arloesi, yn darparu'r adnoddau cynnar.
- Mae newid mawr o'n blaenau o ran y ddarpariaeth o **ynni gwasgaredig** – gall cymunedau gwledig ddod yn hunangynhaliol o ran ynni. Archwiliwch fodolau adnewyddadwy ar gyfer eich cymuned ac ewch ar drywydd gridiau ynni clyfar.
- Gall **Cronfeydd Buddsoddi Lleol** weithio mewn rhai ardaloedd (Be Nesa Llŷn) ac maent yn darparu ar gyfer rheolaeth leol.
- **Digideiddio** neu farw.

Nodwyd rhai meysydd twf allweddol hefyd:

- Ynni adnewyddadwy;
- Storio ynni;
- Seilwaith digidol;
- Gwasanaethau digidol;
- Technoleg saernïo; a
- Chynhyrchu bwyd.

Aeth Gerallt Llewelyn Jones ymlaen i amlinellu rhai dulliau gwellhaol posibl:

- Cronfeydd Buddsoddi Lleol;
- Undebau credyd;
- Academïau technoleg ddigidol;
- Academïau technoleg saernïo;
- Academïau cynhyrchu bwyd; a
- Chynhyrchu ynni gwasgaredig a storio ynni.

Mae angen sicrhau ffrydiau o gynhyrchion bwyd, crefft, twristiaeth ac amgylcheddol newydd hefyd.

Mae hefyd yn hanfodol meithrin cenedlaethau newydd o bobl greadigol yn ein hardaloedd gwledig: os byddwn yn rhoi'r gorau i ddychmygu, yn rhoi'r gorau i ddarlunio, yn rhoi'r gorau i ddyheu, byddwn yn dirywio.

Trafodaeth Panel

Y Cyngorydd Cefin Campbell, yr Athro Janet Dywer, Gerallt Llewelyn Jones a Simon Wright Sesiwn holi ac ateb.

Grwpiau Trafod

Entrepreneuriaeth: hwyluswyd y sesiwn gan David Hieatt, Hiut Denim

Pwyntiau adborth

1. Hyder
2. Chwant
3. Pam ydym ni'n ofni methu?

4. Bod yn uchelgeisiol am dalent
5. Peidio â bod ag ofn pobl ifanc yn symud i ffwrdd – dod â'r trysor yn ôl

Nodiadau'r ysgrifennydd o'r drafodaeth

- Pam mae gan Gymru ddiffyg hyder?
- Mae'r chwant gan rai pobl ond nid ydynt yn gwybod sut i'w harneisio – angen cymorth gan eraill i ddod ag ef allan?
- Pam ydym ni'n ofni methu? Mae'n rhaid i ni gallio
- Angen bod yn uchelgeisiol a meithrin/datblygu talent. Pam ydym ni'n meddwl bod pobl eraill yn well na ni?
- Angen derbyn y bydd pobl yn symud i ffwrdd ar gyfer addysg, swyddi ac am resymau eraill ond yr hyn sy'n allweddol i ni yw gwneud yn siŵr eu bod eisiau dod yn ôl – gallant wneud cyfraniad sylweddol at eu cymunedau wedyn
- Dod â'r trysor yn ôl

Amaethyddiaeth: hwyluswyd y sesiwn gan Euryr Jones, HSBC

Pwyntiau adborth

1. Pam nad yw proseswyr llaeth yn buddsoddi yn Sir Gaerfyrddin?
2. Manteisio ar frwdfrydedd y bobl ifanc tra bod diffyg gweledigaeth ymhlith y genhedlaeth hŷn
3. Potensial micro-brosesu llaeth fel y diwydiant cwrw
4. Addasu polisïau cynllunio i alluogi ffermwyr i newid
5. Addasu polisïau i sicrhau'r posibilrwydd o gaffael lleol

Nodiadau'r ysgrifennydd o'r drafodaeth

- Agweddau ffermwyr o ran chwilio am gwsmeriaid
- Dim rheolaeth o'r farchnad, anwadalrwydd y farchnad
- Angen sgwrs ddwy ffordd gyda'r prynwr
- Diffyg proseswyr llaeth lleol. Pam nad yw proseswyr llaeth yn buddsoddi yn Sir Gaerfyrddin?
- Mae safbwyntiau'r ddwy genhedlaeth yn wahanol
- Buddsoddiad banciau – a ydynt yn cynorthwyo pawb?

- Y diwydiant tatw yn Sir Benfro – crëwyd contractau. (Mae’r rhain yn wahanol i’r MMB – nid oes yn rhaid i ffermwyr fod yn rhan o’r contract)
- Mae angen i’r cyngor sir siarad â phroseswyr
- Mae menter gydweithredol yn gweithio’n dda yng ngogledd Cymru
- Micro-gynhyrchu yn Cross Hands (mae’r rhain yn cynhyrchu Menyn Sir Gâr)
- Mae’r diwydiant bragu cwrw wedi newid a cheir nifer o gynhyrchwyr bach erbyn hyn. A allwn ni ailadrodd hyn ar gyfer y diwydiant llaeth?
- Sut ydym ni’n cael pobl ifanc i mewn i fyd amaeth?
- Prosiect ‘Get into milking’ gyda Choleg Sir Gâr yng Nghelli Aur. Cynllun tebyg i ‘Yn ôl i’r gwaith’, sy’n targedu pobl ifanc, pobl ddi-waith, ffoaduriaid, pobl a ryddhawyd o’r carchar ac ati.
- Mae angen i ffermwyr gynhyrchu cynydau mwy amrywiol i bobl eu bwyta
- Mae daearyddiaeth yn cael effaith ar gontractau i ffermwyr
- Rheolau caffael – Gofynnwch/mynnwch fod yr awdurdod lleol yn prynu gan ffermwyr lleol
- Punt Powys – cadw’r arian yn lleol. Caffael cynnyrch lleol ond mae hyn wedi golygu costau uwch.
- Yr awdurdod lleol i ystyried rhoi ffafriaeth, ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, i gynhyrchwyr sy’n cydymffurfio â’r un telerau ac amodau â phan oeddem yn aelodau o’r UE.
- Newydd-ddyfodiaid – costau ffermydd a thir yn rhy ddrud
- Mae mentrau ar y cyd a threfniadau cytundebol yn opsiynau y mae angen eu harchwilio a’u hannog
- Grwpiau ffocws i bobl ifanc a thirfeddianwyr presennol
- Trafodwyd meini prawf a dulliau cyfredol ar gyfer dosbarthu newydd-ddyfodiaid ifanc.
- Gall yr awdurdod lleol ddylanwadu trwy brosesau cynllunio. Cost plotiau/tai yn rhy ddrud mewn cymunedau gwledig i bobl ifanc.
- Bydd angen i’r awdurdod lleol addasu polisiau cynllunio i gefnogi newid.
- Mae ffermwyr mynydd yn dibynnu’n llwyr ar gymorthdaliadau
- Bydd cymryd grantiau a chymorthdaliadau i ffwrdd yn niweidio’r bryniau a’r mynyddoedd gan fod ffermwyr ac anifeiliaid yn cadw’r llwybrau cerdded yn glir ac yn addas i gerddwyr.

Seilwaith a Gwasanaethau: hwyluswyd y sesiwn gan Llinos Quelch, Cyngor Sir Caerfyrddin

Pwyntiau adborth

1. Band eang
2. Cydleoli gwasanaethau mewn canolfannau a busnesau cymunedol – trefi marchnad
3. Trefnu gwasanaethau ar y cyd – iechyd a gofal cymdeithasol

4. Gwella cysylltiadau rhwng addysg a chyflogaeth – bwlch sgiliau
5. Cynllun rhannu ceir rheoleiddiedig

Nodiadau'r ysgrifennydd o'r drafodaeth

- Problemau trafniadaeth gyhoeddus – atebion cymunedol? Datblygu model Bwcabus ymhellach? Clybiau rhannu ceir? Bodio wedi ei drefnu – enghraifft o Ffrainc
- Diffyg llety
- Cyfleoedd i ddatblygu canolfannau cymunedol – gwir neu rithwir? Un lleoliad ar gyfer nifer o wasanaethau.
- Cydgysylltu sefydliadau i gynorthwyo busnesau bach
- Swyddogaeth cynllunio a datblygu
- Addysg ac ysgolion – effaith ar gymunedau
- Ffyrdd a phriffyrdd – cyflwr
- Ynni – atebion traddodiadol ac adnewyddadwy
- Gwasanaethau cymdeithasol – yn gallu ymdopi â galw yn y dyfodol? Angen dull wedi'i integrieddio ag iechyd
- Mynediad at fand eang a rhwydweithiau ffonau symudol yn hanfodol: gweithio gartref a busnesau. Atebion posibl wedi eu harwain gan y gymuned – cloddio'r ffosydd.
- Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer ffonau ond nid ar gyfer band eang?
- Cartrefi fforddiadwy: cadw pobl ifanc yn lleol. Angen dwyn datblygwyr i gyfrif
- Cyd-destun gofodol – sut gwnaiff y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael swyddi sy'n talu'n dda i'r gogledd i Afon Tywi? Economiâu gwledig cynaliadwy. Mae angen swyddi a gwasanaethau wedi eu gwasgaru'n dda, nid coridor yr M4 yn unig. Mae angen gwahanol fodolau arnom ar gyfer gwahanol ardaloedd – teilwra'r gwasanaeth yn ôl angen lleol. Mae canoli gwasanaethau a swyddi yn heriol
- Gwaith a chyflogaeth: ystyried cyfleoedd caffael i gefnogi busnesau lleol
- Trefi marchnad: swyddogaeth gymdeithasol a chyfathrebu. Defnyddio synnwyr o le sy'n perthyn i drefi marchnad ac ailfywiogi trwy wasanaethau lleol. Angen deall y swyddogaeth y gall gwahanol drefi a phentrefi ei chyflawni o ran adfywio gwledig
- Trosglwyddo asedau cymunedol: trydydd sector, gwaith partneriaeth ond hefyd sicrhau cyfraniad y sector preifat
- Gwasanaethau ariannol: angen cadw banciau (neu ddod â nhw yn ôl) i drefi marchnad. A all cyngor ddarparu cyfleusterau bancio? Sefydlu Banc Cymru

- Defnyddio coridorau rheilffordd segur i sefydlu rhwydweithiau
- Unedau busnes i gael eu datblygu mewn trefi marchnad a phentrefi
- Newid polisi cynllunio er mwyn hwyluso cyfleoedd cyflogaeth ac arallgyfeirio ar ffermydd ac mewn busnesau gwledig
- Swyddogaeth Cyngorau Tref a Chymuned
- Prinder meddygon: swyddogaeth i'r adran addysg gydgysylltu cyngor gyrfaoedd a chyfleoedd i bobl ifanc
- Paratoi pecyn Croesi i Sir Gaerfyrddin.

Yr Amgylchedd a Llesiant: hwyluswyd y sesiwn gan Ioan Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru

Pwyntiau adborth

1. Heriau / pwysau ariannol ar draws pob sector – mae angen i ni ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth
2. Pwysigrwydd addysg (ffurfiol, cymunedol ac anffurfiol). Y potensial sydd gan y cwricwlwm newydd o ran creu cwricwlwm lleol
3. Trosglwyddo asedau cymunedol – sut ydym yn annog pobl i gymryd rhan, a phobl ifanc yn benodol
4. Rhagnodi gwyrdd ac iechyd darbodus – sut ydym ni'n cysylltu'r cyfleoedd hyn?
5. Pwysigrwydd cysylltu hygyrchedd a hyrwyddo/marchnata

Nodiadau'r ysgrifennydd o'r drafodaeth

- Mwy o bwysau ar gyllid ffermwyr – gall ffermwyr roi mwy o bwyslais ar yr amgylchedd pan fo amodau yn well
- Amcangyfrif o werth twristiaeth – sut ydym ni'n gwybod y budd economaidd
- Sut ydym ni'n cyfathrebu heriau lleol? Pwy sy'n ymwybodol o'r prif faterion lleol?
- Angen codi ymwybyddiaeth o waith Cyfoeth Naturiol Cymru – a'r cymorth y gall y sefydliad ei gynnig?
- Bu symudiad o ran cyfrifoldeb – rydym yn dibynnu ar reoleiddio, fel trwy Cyfoeth Naturiol Cymru
- Pwysigrwydd addysg – cyfle i hybu llesiant yn rhan o'r cwricwlwm newydd. Bydd cyfle i ysgolion greu cwricwla/prosiectau lleol sy'n gallu hybu creadigrwydd a chodi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ac athrawon
- Tynnwyd sylw at brosiect Tyfu Cynefin Menter Cwm Gwendraeth – cymorth i ysgolion drefnu teithiau a chodi ymwybyddiaeth o lesiant a'r amgylchedd yn lleol
- Angen sicrhau camau ar gyfer materion amgylcheddol – hefyd, yn sgil Brexit, bydd llai o grantiau ar gael. Mae angen i ni wneud defnydd gwell o adnoddau ar draws sectorau
- Awgrymwyd bod polisiau cyhoeddus yn gwrthddefnyddio ei gilydd – angen gwella ystyriaeth ar y cyd o faterion amgylcheddol, economaidd a diwylliannol
- Cytuno ar bwysigrwydd y cwricwlwm a bod angen neilltuo mwy o amser i fodiwlau penodol o ran materion cymunedol ac amgylcheddol – angen defnyddio arbenigwyr lleol i ddod â phethau ynghyd
- Awgrym o ddefnyddio cylchoedd consentrig mewn cymunedau a systemau cynllunio – cymuned, ardal, tref marchnad, tref sir, sir
- Glawriad gormodol fel cyfle a her – beth am ddefnyddio mwy o ynni dŵr?
- Cynlluniau ynni dŵr / ynni dŵr micro – angen ystyried cynlluniau canlyniadau isel
- Angen dod â chymorth i ficro-fentrau lleol yn ôl, gan gymryd pwyslais oddi ar dariffau a budd ariannol

- Pryderon ynghylch dwysáu'r diwydiant llaeth a chynhyrchu india-corn – mae angen cyngor a chymorth gan Cyfoeth Naturiol Cymru – e.e. technolegau yn dod i'r amlwg i dan-hau india-corn gyda glaswellt
- Defnyddio sail wirfoddolwyr – sut allwn ni gymell a chynorthwyo cwmnïau budd cymunedol
- Cyfeiriwyd at enghraifft Tir Coed, yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin o 2019 – yn cynorthwyo cymunedau i fynediad ac ardaloedd cyhoeddus a chynorthwyo pobl yn ôl i'r gwaith
- A ydym ni'n edrych ar amgylchedd wedi ei niweidio? Nid ydym yn gwarchod ein hamgylchedd o dan gyfyngiadau presennol. Fodd bynnag, ceir sefydliadau trydydd sector sy'n barod i helpu'r cyrff rheoleiddio a statudol
- Dyfynnwyd enghreifftiau o'r Alban, lle mae coedwigoedd wedi cael eu rhoi i'r gymuned leol i'w meithrin a'u datblygu – hefyd prosiect ym Mhontrhydfendigaid lle rhoddwyd ardal goedwig leol i'r gymuned
- Potensial gyda throsglwyddo asedau cymunedol – fodd bynnag, a ydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a phobl ifanc yn arbennig?
- Cyfrifoldeb pwy yw arwain ac ymgyrchu?
- Pwysigrwydd trafniadaeth gyhoeddus i addysg – cwricwlwm newydd i gynnwys manau awyr agored
- Cyfeiriwyd at fabwysiadu cynllun glannau afon yn Sir Benfro fel enghraifft dda – mae angen i ni edrych ar draws y sectorau sylfaenol ac eilaidd
- Mae angen i ni ystyried trafniadaeth gyhoeddus a'r cysylltiadau â sectorau preifat (cymorth ariannol / nawdd)
- Nodwyd pryder ynghylch yr oes ddigidol ac annog diddordeb mewn ardaloedd gwledig – sut ydym ni'n creu'r lle hwnnw?
- Cysylltiadau ag addysg a gosod gwaith cartref – a allwn ni osod tasgau i gymryd pobl ifanc i'n ardaloedd gwledig / yr hyn sy'n lleol iddynt?
- Cysylltiadau â sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc – ni allwn dybio bod pobl ifanc yn gwybod am fynediad agored. Mae angen i ni fod yn llai wrthwynebol i risg – sut gall yr adran addysg gynghori athrawron ysgol er mwyn annog hyn?
- Mae angen i ni gryfhau cysylltiadau ag iechyd meddwl, ymwybyddiaeth ofalgar a llesiant
- Ni all y Gwasanaeth Iechyd fodloni'r galw mwyach – sut ydym ni'n cysylltu iechyd darbodus gyda'n hamgylchedd?
- Nodwyd enghraifft o Gofentri lle mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu cynorthwyo trwy rwydwaith rhagnodi gwyrdd. Mae hyn hefyd ar gael yn Sir Benfro trwy Weithredu Gorllewin Cymru Dros Iechyd Meddwl a Chymdeithas Mudiadau Wirfoddol Powys

Yr Economi Ymwelwyr: hwyluswyd y sesiwn gan Helen Howells, Hwylus

Pwyntiau adborth

1. Gwella cydweithrediad ar draws y sector cyfan
2. Gwella'r gwaith o hyrwyddo digwyddiadau presennol
3. Gweithio ar gael ymwelwyr sy'n mynd heibio i aros
4. Datblygu cynnig awyr agored
5. Datblygu synnwyr o le – yr hyn sy'n unigryw i Sir Gaerfyrddin

Nodiadau'r ysgrifennydd o'r drafodaeth

- Angen gwella'r broses o gydgyssylltu ymdrech ar draws y sector – sefydlu fforwm i gydgyssylltu gweithgarwch i hybu'r sector. Mae angen i gymunedau, busnesau a'r awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd
- Ystyried ymgyrchoedd penodol ar draws y sir
- Angen edrych ar fodolau eraill sydd wedi gweithio, e.e. Myddfai; Menter Stiniog
- Defnyddio canolfannau mewn trefi, e.e. canolfan newydd yn Llandeilo
- Cydgyssylltu adnoddau ac arbenigedd – nodi cyfleoedd a hyrwyddo
- Hyrwyddo a marchnata'r hyn sy'n digwydd eisoes yn well
- Cydweithredu â busnesau lleol fel y gallant elwa o ddigwyddiadau lleol
- Deall yr hyn sy'n denu pobl i'r sir ac adeiladu ar hynny
- Cysylltu â digwyddiadau cyfranogaeth dorfol sydd eisoes yn cael eu cynnal yn y sir, e.e. triathlonau a digwyddiadau chwaraeon eraill, cynorthwyo trefnwyr digwyddiadau i hyrwyddo digwyddiadau i'r gymuned ehangach
- Angen datblygu canolfan gynadledda a llety gwestai
- Datblygu darpariaeth cerbydau gwerysilla/carafanau yn y sir
- Systemau trafniadaeth gyhoeddus i ddod ag ymwelwyr i'r trefi – prosiect cymunedol posibl?
- Edrych ar y cysyniad Ayers yn Ffrainc
- Tirwedd naturiol: pysgota/afon; dŵr; môr; beicio; cerdded; cestyll
- Gwella'r afonydd i fanteisio ar dwristiaeth pysgota
- Pysgota yn Llyn Brianne?
- Cyfleoedd chwaraeon dŵr yn Llyn Brianne – cwch hir; canŵ; hwyllo
- Gwella dealltwriaeth o fywyd afon er mwyn gwella defnydd o'r afon a chynorthwyo'r economi leol
- Cyfle i ddatblygu siopau bwyd stryd dros dro
- Angen cynnwys hanes cymunedau lleol yng nghwricwlwm ysgolion – angen i bawb yn y gymuned werthu ein sir i ymwelwyr
- Sir Ysbrydoliaeth; Sir Straeon
- 20 munud o bobman

- Ymsefydlu brand ar lefel sir sy'n werthadwy ar lefelau cenedlaethol a byd-eang. Cysylltu ag ymgyrchoedd Croeso Cymru
- Deall yr hyn sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin yn unigryw a'i hyrwyddo: amrywiaeth cynhyrchion bwyd; dylunio bwydlenni lleol yn seiliedig ar y bwydydd hyn; hyrwyddo
- Defnyddio cwmnïau cyfryngau preifat fel Tinopolis i lunio ffilmiau byr ar opsiynau bwydlen i'w postio ar y rhyngwrwyd neu eu dangos ar y teledu. Defnyddio cogyddion lleol, e.e. Simon Wright, i hyrwyddo. Sianel YouTube ar gyfer Twristiaeth Bwyd Sir Gaerfyrddin
- Dull Genus Loci yn yr Eidal – creu ysbryd o le
- Beth yw Sir Gaerfyrddin?

Cydnabyddiaethau

Hoffai Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin ddiolch i'r holl siaradwyr a hwyluswyr a gyfrannodd at y gynhadledd. Hoffai'r Grŵp Gorchwyl ddiolch hefyd i brif noddwyr y gynhadledd: Cyfrifyddion Siartredig LHP, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr. Rhoddir diolch hefyd i Rees Richards (Syrfewyr Siartredig, Asiantau Tir ac Ystad), NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru a Hwylus am eu nawdd i'r grwpiau trafodaeth.